



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Eich gwybodaeth chi

Pam fod ei hangen hi ar Lywodraeth Cymru a beth y byddwn ni'n ei wneud â hi.

Crynodeb i bobl ifanc

Eich gwybodaeth chi

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth.

Pethau fel:

- faint o ddysgwyr sydd ym mhob ysgol
- cofnodion presenoldeb
- canlyniadau arholiadau
- canlyniadau profion
- beth y mae pobl ifanc yn dewis ei wneud ar ôl iddyn nhw ddod yn 16 oed
- faint o blant sy'n cael eu haddysgu yn rhywle arall yn lle'r ysgol.

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol.

Mae gan bawb wybodaeth bersonol:

- eich enw
- cyfeiriad
- dyddiad geni
- enwau'ch rhieni neu'ch gofalgwyr.

Mae'n helpu pobl i wybod pwy ydych chi a beth sydd ei angen arnoch chi.

Cyfraith newydd

Mae yna reolau ynglŷn â sut i gadw gwybodaeth yn ddiogel a sut i'w rhannu. Mae'r rheolau yma yn **Neddf Diogelu Data 2018**.

O dan y gyfraith, mae'r **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)** yn rhoi mwy o reolaeth ichi dros eich gwybodaeth.

Mae'n gwneud yn siŵr bod yn rhaid i bawb sy'n casglu gwybodaeth:

- fod yn onest ynglŷn â pham eu bod nhw ei heisiau
- bod yn glir ynglŷn â beth y byddan nhw'n ei wneud â hi.

Felly mae'r llyfryn yma'n dweud wrthoch chi pam fod angen eich gwybodaeth arnon ni a beth y byddwn ni'n ei wneud â hi.



Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chael?

Mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Dyna'r gyfraith.



Gwybodaeth sydd â manylion personol.

Mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei chael amdanoch chi'n cynnwys:

- manylion personol fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni
- eich cofnodion presenoldeb ac unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd i ddelio â phroblemau
- unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch chi i'ch helpu chi i ddysgu
- unrhyw gymorth y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei roi ichi
- canlyniadau'ch arholiadau a'ch profion ysgol.

Mae'r wybodaeth yma'n ein helpu ni i wybod pwy ydych chi a beth sydd ei angen arnoch chi.



Rydyn ni hefyd yn cael gwybodaeth sydd wedi'i chrynhoi i ddod yn **wybodaeth sydd heb eich manylion personol.**

Mae'r wybodaeth yma'n eich cynnwys chi ond dydych chi ddim yn cael eich enwi. Jest rhifau ydyn nhw.

Does neb yn gwybod pwy ydych chi o'r wybodaeth yma.

Mae rhifau'n rifol yn rhoi ffordd gyflym a hawdd inni weld sut hwyl y mae ysgolion ac addysg yng Nghymru'n ei chael ar bethau. Rydyn ni'n cael rhifau am ddysgwyr:

- sy'n pasio arholiadau, a'u graddau
- sydd angen help ychwanegol
- sy'n cael prydau ysgol am ddim
- sy'n dod o wahanol gefndiroedd
- sy'n dod o wledydd eraill
- a phethau eraill.

Er enghraifft:

Yn 2016, cafodd 60% o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 radd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg.

Beth ydyn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth?

Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Rydyn ni'n ei hastudio



Rydyn ni'n astudio gwybodaeth sydd heb eich manylion personol.

Mae'n ein helpu ni:

- i weld a ydy pob ysgol a phob amgylchedd addysg arall yn gweithio'n dda
- i wella systemau addysg
- i wneud penderfyniadau gwell
- i weld a ydy arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd gorau
- i wneud polisiau newydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rydyn ni'n ei chyhoeddi



Rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth sydd heb eich manylion personol.

Rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth fel bod pobl yn gallu gweld sut hwyl y mae ysgolion ac addysg yn ei chael ar bethau yng Nghymru.

- Rydym ni'n rhoi ystadegau ar ein **gwefan**.
- Mae gennon ni dablau data ar **StatsCymru**.
- Rydym ni'n gwneud yn siŵr bod yna wybodaeth ar wefan **Fy Ysgol Leol**.



Rydyn ni'n ei rhannu

Pan rydyn ni'n rhannu'ch gwybodaeth, rydyn ni'n gwneud yn siŵr ei bod hi'n cael ei chadw'n ddiogel a bod y rheolau cyfreithiol yn cael eu dilyn.



Dydyn ni ddim ond yn rhannu gwybodaeth sydd â'ch manylion personol â sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn y rheoliadau. Mae'r rhestr yn cynnwys pethau fel:

- ysgol newydd
- Gyrfa Cymru, fel eich bod chi'n cael yr hyfforddiant iawn ar gyfer gweithio.



Rydyn ni hefyd yn rhannu gwybodaeth sydd heb eich manylion personol.

Rydyn ni'n ei rhannu hi â sefydliadau rydyn ni wedi gofyn iddyn nhw ei hastudio ar ein rhan. Maen nhw'n gwneud hyn:

- am reswm fel ein helpu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol
- gan ddilyn y rheolau
- am gyfnod penodol o amser
- yna mae'n rhaid iddyn nhw ddinistrio'r wybodaeth.

Rydyn ni'n ei chadw



Rydyn ni'n cadw gwybodaeth sydd â'ch manylion personol tan eich pen-blwydd yn 25 oed.



Rydyn ni'n cadw gwybodaeth arall sydd heb eich manylion personol i'w hastudio am mor hir ag sydd angen.

Eich hawliau



Mae gennych chi hawl i:

- weld unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennon ni amdanoch chi
- gofyn inni newid unrhyw wybodaeth rydych chi'n meddwl sy'n anghywir
- gofyn inni beidio â rhannu'ch gwybodaeth, ond nid pan mae angen inni gael cymorth ar eich cyfer neu'ch cadw chi'n ddiogel
- gofyn inni dynnu gwybodaeth o'n systemau.

Gallwch chi gwyno os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni'n parhau'ch hawliau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yno i'ch helpu.



Mwy o wybodaeth

Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, yna cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF103NQ

E-bost: IMS@gov.cymru neu
DataProtectionOfficer@gov.cymru

Gallwch chi hefyd gysylltu â:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: **01625 545 745** neu **0303 123 1113**

www.ico.gov.uk

